## ATODLEN 1

### Diwygio Is-ddeddfwriaeth ym maes Addysg

*Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010*

**18.**—(1) Diwygir Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010(**1**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) yn y diffiniad o "awdurdod lleol" yn lle "awdurdod addysg lleol" ym mhob man lle y mae'r geiriau hynny'n digwydd rhodder "awdurdod lleol" ac yn lle "awdurdodau addysg lleol" rhodder "awdurdodau lleol".

(3) Yn rheoliadau 11(3)(b) a 17(2)(d) yn lle "fel awdurdod addysg lleol" rhodder "addysg".

(**1**) O.S. 2010/638 (Cy.64).